wrexham
COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd

Gwasanaethau Landlordiaid Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Diweddarwyd Chwefror 2007

Adran	Teitl	Tudalen
1)	Cyflwyniad	3
2)	Datganiad polisi	4
3)	Fframwaith strategol	6
4)	Datganiad o weithdrefnau	7
5)	Safon gwasanaethau	11
6)	Partneriaethau amlasiantaeth	13
7)	Cefnogi achwynwyr a thystion	17
8)	Rheoli tramgwyddwyr	18
9)	Trais teuluol	22
10)	Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaeth	24
11)	Ymgynghori	25
12)	Rhestr geirfa	26
13)	Rhifau ffôn defnyddiol	29

POLISI YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL Y GWASANAETHAU LANDLORD

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, sy'n diwygio Deddf Tai 1996, yn gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, fel landlord, gyhoeddi polisi am sut bydd yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

1.2 Bwriad y datganiad polisi hwn yw rhoi datganiad clir o ymagwedd y Gwasanaethau Landlordiaid at ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd yn chwarae rôl allweddol mewn hybu ystadau diogelach a diogelu trigolion hawdd eu niweidio rhag effeithiau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

1.3 Mae'n amlinellu sut byddwn yn diogelu ein hystadau tai, delio â thramgwyddwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn darparu cyngor a chefnogaeth i dystion a dioddefwyr.

1.4 Mae'r ddogfen hon ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor a gallwn ddarparu copi i chi ar gais.

1.5 Mae crynodeb o'r ddogfen ar gael ar gais hefyd. Gallwch ddarllen y ddwy ar wefan y Cyngor.

1.6 Bydd y ddogfen ar gael yn Gymraeg ac mewn fformatiau ac ieithoedd eraill ar gais.

2. DATGANIAD POLISI

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cydnabod bod rhaid cael polisïau, gweithdrefnau a nodau clir wrth ddelio ag achlysuron o ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r problemau y mae'n eu creu.

2.2 Fel landlord, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn credu bod gan denantiaid a'r rhai sy'n byw ger tenantiaid neu ar ystadau'r Cyngor yr hawl i fyw yno'n dawel. Dylai eu bywydau fod yn rhydd o aflonyddwch, niwsans, ac unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol arall.

2.3 Mae'r Adran Tai a Diogelu'r Cyheodd (Gwasanaethau Landlordiaid) yn cydnabod hefyd y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol effeithio ar ei gallu i reoli ei heiddo a chyflawni ei swyddogaeth fel landlord.

2.4 Diffinnir ymddygiad gwrthgymdeithasol fel:
"gweithredu mewn ffordd sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi aflonyddwch, gofid neu ofn i un neu fwy o bobl" (Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998).

2.5 Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gynnwys: chwarae cerddoriaeth yn uchel, bod yn feddw, gwerthu cyffuriau, defnydd anghyfreithlon o gyffuriau, ymddygiad neu iaith hiliol, ymddygiad neu iaith homoffobig sydd â'r bwriad o niweidio, anafu neu ddigio unrhyw un oherwydd gwahaniaeth canfyddedig, difrodi neu fygwth difrodi eiddo rhywun arall, trais teuluol a thrwsio ceir heb awdurdod ar dir y mae'r Gwasanaethau Tai'n berchen arno.

2.6 Nid yw'r uchod yn rhestr lawn o ymddygiad gwrthgymdeithasol ond mae'n ganllaw iddo. Ymdrinnir â phob achlysur yr adroddir arnynt i'r Gwasanaethau Tai yn ddifrifol, yn brydlon, yn broffesiynol ac yn gyfrinachol. Gwneir yr ymchwiliadau gofynnol er mwyn ystyried y camau gweithredu mwyaf priodol. Dywed cytundeb tenantiaeth yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd:-

"Rhaid i ni roi cyngor a chymorth i chi ac unrhyw un sy'n byw gyda chi, os byddwch yn rhoi gwybod i ni am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddwn yn ymchwilio i'ch cwynion, yn rhoi gwybod i chi beth fydd yn digwydd ac yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r broblem." "Byddwn yn rhoi cyngor a chymorth i chi os byddwch yn rhoi gwybod i ni am achosion o niwsans neu aflonyddwch. Byddwch yn ymchwilio i'ch cwynion ac yn penderfynu pa gamau i'w cymryd."

2.7 Bydd y Gwasanaethau Landlordiaid yn sefydlu a chyhoeddi:-

- trwy ei chytundeb tenantiaid a llawlyfr tenantiaid y lefel dderbyniol o ymddygiad a ddisgwylir gan denantiaid, eu teuluoedd ac ymwelwyr.
- trwy ei pholisi ymddygiad gwrthgymdeithasol a thaflenni gwybodaeth, ymagwedd amlasiantaeth y Gwasanaethau Landlordiaid tuag at ymddygiad gwrthgymdeithasol, y camau y bydd y Gwasanaethau Tai'n eu cymryd pan fydd ymddygiad yn annerbyniol a'r gefnogaeth a roddir i'r rhai sy'n dioddef effeithiau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

2.8 Mae gan y Gwasanaethau Landlordiaid y mesurau canlynol yn eu lle i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol:

- Staff rheoli ystadau a all ddelio â chwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y lle cyntaf ac a all weithredu i symud y mater yn ei flaen neu ei ddatrys.
- Gwaith amlasianthaeth gyda chyrff megis Heddlu Gogledd Cymru, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Wrecsam, Diogelu'r Chyhoedd a chynllun Wardeiniaid Cymdogaeth y Cyngor.
- Y Tîm Gorfodi Tenantiaeth, sy'n rhan o'r Gwasanaethau Tai. Gwneir cyfeiriadau i'r tîm am doriadau mwy difrifol o amodau tenantiaethau, pan fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynyddu neu pan fydd angen cychwyn achos llys.
- Llunio contractau ymddygiad derbyniol gydag unigolyn er mwyn ceisio newid ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Cyfeiriad at gynllun Cefnogi Tenantiaeth y Cyngor lle gwelir lefelau isel o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gweithio gyda'r unigolion dan sylw i ddatrys problemau sy'n peryglu eu tenantiaeth.
- Ystod o atebion cyfreithiol gan gynnwys gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwaharddiadau, gorchmynion diraddio ac achosion meddiannu.

3. FFRAMWAITH STRATEGOL

3.1 Rhaid edrych ar ymagwedd Wrecsam at ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn cyd-destun y ddeddfwriaeth ganlynol:-

- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Tai 1985
- Deddf Tai 1996
- Deddf Plant 1989
- Deddf Plant 2004
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (DDA)
- Deddf Troseddu ac Anhrefn 1998
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Digartrefedd 2002
- Deddf Diwygio'r Heddlu 2002
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Deddf Gwarchod Data 1998
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol 2000 (RIPA)
- Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005
- Deddf Diogelwch rhag Aflonyddwch 1997
- Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990
- Deddf Sŵn 1996
- Ymdrin â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru – Ymagwedd o Bartneriath (Llywodraeth Cynulliad Cymru)

3.2 A'r polisïau a gweithdrefnau canlynol:-

- Cytundeb tenantiaeth yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd
- Polisi dyrannu'r Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd
- Polisi Gosod Tai Lleol yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd – Eiddo sy'n Anodd ei Reoli
- Polisi gwahardd yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd
- Gweithdrefn yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn Llety Ymddeol
- Strategaeth Tai Leol
- Strategaeth Diogelwch Cymunedol
- Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan
- Strategaeth Gymunedol

4. DATGANIAD O WEITHDREFNAU

4.1 Amcanion y Gwasanaethau Landlordiaid yw:-

- Lleihau ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Atal ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag digwydd eto
- Sicrhau diogelwch a diogeledd tystion unigol
- Codi hyder y gymuned ehangach i adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Rhoi ymdeimlad o ddiogelwch a lles i denantiaid a phreswylwyr yr ystadau tai

4.2 Byddwn yn cwrdd â'r canlyniadau hyn trwy ddefnyddio ystod eang o gamau gweithredu gan gynnwys:

- Gwrando ar achwynwyr a thystion
- Ymchwilio i adroddiadau a chwynion a chael y ffeithiau gan gynnwys cyfweld â thramgwyddwyr
- Defnyddio Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaeth y Cyngor lle gwelir bod lefelau isel o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn peryglu tenantiaeth
- Defnyddio contractau ymddygiad derbyniol fel ffordd o atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac annog gwelliant
- Mewn achosion mwy difrifol, ymgeisio am orchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Defnyddio gwaharddiadau
- Yn yr achosion mwyaf difrifol neu gyson, ceisio gorchymyn llys i diraddio tenantiaeth sicr neu ailfeddiannu eiddo a dadfeddiannu tenant

4.3 Bydd y weithdrefn gwyno'n hawdd i'w dilyn.

4.4 Hysbysir achwynwyr o gynnydd ymchwiliadau a'u canlyniad.

4.5 Bydd ymateb y Gwasanaethau Landlordiaid i gwynion yn unol â'i gweithdrefn ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd canlyniad cwynion unigol yn dibynnu ar natur yr ymddygiad a'r ddeiliadaeth y rhai dan sylw.

4.6 **Cwynion am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gan Denantiaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

4.7 Gallwch adrodd am gwynion sy'n cynnwys tenantiaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn unrhyw un o swyddfeydd ystad y Cyngor neu yn swyddfa'r Gwasanaethau Tai, Ffordd Rhuthun, Wrecsam.

4.8 Gallwch gwyno'n bersonol, trwy lythyr, dros y ffôn neu'n uniongyrchol i'r Tîm Gorfodi Tenantiaeth trwy ebostio tenancyenforcement@wrexham.gov.uk.

4.9 I ddechrau, anfonir y gwyn i'r swyddfa ystad berthnasol. Bydd rheolwr y swyddfa ystad yn dyrannu swyddog tai i'r gwyn. Bydd ymchwiliadau'n dechrau o fewn 3 diwrnod gwaith o dderbyn y gwyn. Bydd y swyddog tai

sy'n delio â'r gwyn yn asesu ei difrifoldeb ac yn gwneud unrhyw ymchwiliadau gofynnol. Bydd yn cysylltu a chyfweld â phawb dan sylw.

4.10 Os yw'r tramgwyddwr yn ifanc, byddwn yn cysylltu â'r rhiant neu'r gwarcheidwad a'u gwahodd i gyfweliad, gan fydd pob tenant Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd Wrecsam yn gyfrifol am ymddygiad unigolion sy'n byw gyda nhw neu sy'n ymweld â nhw. Gallai hyn arwain at weithredu yn eu herbyn yn y pen draw oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol mab, merch neu aelod arall o'r teulu.

4.11 Mae cytundeb tenantiaeth yr Adran yn datgan yn glir:-

"Rydych chi'n gyfrifol am ymddygiad pawb (gan gynnwys plant) sy'n byw yn eich cartref neu'n ymweld â chi. Rydych chi'n gyfrifol am eu hymddygiad yn eich cartref, ar dir cyfagos, mewn mannau sy'n cael eu rhannu, yn yr ardal o gwmpas eich cartref ac yn unrhyw un o'n hadeiladau." "Rydych yn gyfrifol am ymddygiad pawb (gan gynnwys plant) sy'n byw gyda chi neu sy'n ymweld â'ch cartref. Rydych yn gyfrifol am bawb yn eich cartref, ar dir cyfagos, mewn mannau sy'n cael eu rhannu (mannau fel grisiau, lifftiau, pen y grisiau, cynteddau, palmentydd, gerddi ac iardiau a rennir, mannau parcio a rennir gyda thenantiaid eraill), ar yr ystâd neu yn unrhyw un o'n hadeiladau."

4.12 Yn ystod ymchwiliadau, bydd yr achwynydd yn cael gwybod am gynnydd ac yn derbyn gwybodaeth berthnasol.

4.13 Bydd yr achos yn cael ei fonitro ac, ar ôl 28 diwrnod, bydd yn cael ei arolygu gan reolwr y swyddfa ystad dan sylw.

4.14 Bydd yr arolwg yn penderfynu a wnaed yr holl ymchwiliadau gofynnol ac a oes angen gweithredu ymhellach.

4.15 Ar ôl arolygu'r achos, mae'r opsiynau fel a ganlyn:-

- Cau'r achos os datryswyd ef yn foddhaol a rhoi gwybod i bawb dan sylw.
- Ymchwilio ymhellach i'r achos. Pan ymchwilir ymhellach, bydd y rhai sy'n rhan o'r achos yn cael gwybod. Arolygir pob achos bob mis er mwyn penderfynu sut i symud ymlaen.
- Cyfeirio'r achos at dîm gorfodi tenantiaeth y Gwasanaethau Landlordiaid er mwyn gweithredu ymhellach. Gallai hyn gynnwys achos cyfreithiol.

4.16 **<u>Cyfeirio at y Tîm Gorfodi Tenantiaeth</u>**

4.17 Os yw rheolwr ystad yn credu bod angen gweithredu ymhellach neu bod achos cyfreithiol yn briodol, cyfeirir yr achos at y Tîm Gorfodi Tenantiaeth.

4.18 Gall hyn ddigwydd pan na fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gwella neu os bu cynnydd yn y digwyddiadau.

4.19 Bydd yr holl achosion yn cael eu harolygu a'u trafod gyda'r Tîm Gorfodi Tenantiaeth o fewn 3 diwrnod gwaith.

4.20 Pan fydd y Tîm Gorfodi Tenantiaeth yn derbyn achos, bydd yr uwch swyddog yn ebostio'r rheolwr ystad i gynnwys enw a chyfeiriad yr achwynydd, rhif yr achos, enw'r swyddog sy'n delio â'r achos a'r cynllun gweithredu arfaethedig.

4.21 Bydd y swyddog gorfodi tenantiaeth a enwebir yn cysylltu â'r achwynydd i'w hysbysu o enw'r swyddog achos, rhif ffôn a bod yr achos yn destun ymchwiliad.

4.22 Hysbysir achwynwyr a thystion o ddatblygiadau. Os teimlir bod achwynwyr neu dystion yn agored i newid neu'n fregus neu'n hen, gall y Tîm Gorfodi Tenantiaeth gysylltu â'r heddlu a chynnig cefnogaeth.

4.23 Os na all tystion fynd i'r llys oherwydd eu bod yn agored i niwed, yn fregus neu'n hen, gall y Tîm Gorfodi Tenantiaeth ddefnyddio datganiadau tyst llofnodedig yn y llys neu weithredu fel tystion proffesiynol.

4.24 Gwneir yr holl ymchwiliadau gofynnol er mwyn cael mwy o dystiolaeth.

4.25 Gellir defnyddio'r dulliau canlynol:-

- Ymweld â chymdogion
- Adnabod tystion posibl
- Cysylltu â chyrff eraill
- Cysylltu â'r tramgwyddwr
- Cyfweld â'r tramgwyddwr
- Defnyddio taflenni cofnodi niwsans
- Gwyliadwriaeth

4.26 Arolygir achosion a gweithrediadau bob wythnos. Arolygir y gwaith papur perthnasol bob wythnos hefyd yn unol â gweithdrefnau gorfodi tenantiaeth y Gwasanaeth Landlordiaid. Hysbysir rheolwyr swyddfeydd ystad o gynnydd achosion perthnasol bob mis. Cofnodir holl fanylion y cyfarfodydd hyn yn unol â gweithdrefnau gorfodi tenantiaeth y Gwasanaeth Landlordiaid.

4.27 Os ystyrir bod achos cyfreithiol yn hanfodol i ddatrys yr achos, bydd y cyfreithiwr tai (gorfodaeth) yn chwarae rhan.

4.28 Mae gan y Tîm Gorfodi ystod o atebion cyfreithiol ac anghyfreithiol er mwyn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Maent yn cynnwys:

- Cytundebau ymddygiad derbyniol (ABC)
- Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBO)
- Achos meddiannu – tenantiaid a thrwyddedigion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Gwaharddebau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er mwyn diogelu'r gymuned, gall y gwaharddebau hyn gynnwys telerau sy'n gwahardd rhai mathau o ymddygiad a gallant eithrio tramgwyddwyr o ardaloedd penodol
- Tenantiaethau a ddiraddiwyd (ar gyfer tenantiaid sicr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)
- Estyn tenantiaeth gyflwyniadol
- Gohirio'r hawl i brynu

- Atal caniatâd cyfnewid ar y cyd

4.29 Ceir esboniad llawnach o'r telerau hyn yn Adran 13 – Rhestr Geirfa.

5. SAFON Y DDARPARIAETH

5.1 Os yw achwynydd yn anfodlon â chanlyniad ymchwiliadau neu'r ffordd y gwnaed yr ymchwiliadau, gallant wneud cwyn swyddogol trwy weithdrefn cwynion y Cyngor.

5.2 Y Swyddog Sylwadau a Chwynion yn y Gwasanaeth Tai fydd yn ymchwilio i'r gwyn i ddechrau.

5.3 O fewn 20 diwrnod, bydd yr achwynydd yn derbyn ymateb yn amlinellu'r canlyniadau ac unrhyw weithrediad adfer a nodwyd.

5.4 Os yw'r mater yn gymhleth, anfonir ymateb dros dro, yn amlinellu'r canlyniadau hyd hynny, ac unrhyw gamau gweithredu a gymerir i ddatrys y mater.

5.5 Os bydd yr achwynydd yn anfodlon â chanlyniad ymchwiliadau, gellir symud y mater trwy weithdrefn cwynion y Cyngor.

5.6 Am esboniad llawn o'r weithdrefn hon, cyfeiriwch at y polisi cwynion corfforedig.

5.7 **Cwynion a geir gan denantiaid CBSW am berchnogion preswyl neu denantiaid landlord cymdeithasol cofrestredig arall**

5.8 Mae gan y Gwasanaethau Landlordiaid bŵer i weithredu yn erbyn y rhai sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain.

5.9 Pan fydd ymddygiad neu weithrediadau perchennog preswyl neu denant landlord cymdeithasol cofrestredig yn effeithio ar fywydau tenantiaid y Cyngor neu ar allu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau fel landlord, mae modd cyfeirio'r achos at y Tîm Gorfodi Tenantiaeth. Yn yr achosion hyn, gallai fod yn bosibl cyhoeddi gwaharddebau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu herbyn i atal yr ymddygiad rhag effeithio ar denantiaid y Cyngor.

5.10 Ym mhob achos arall, cynghorir y tenant sy'n cwyno i gael cyngor cyfreithiol annibynnol neu ymgynghori â chyrff gwirfoddol megis Cyngor ar Bopeth.

5.11 Pan fydd tenantiaid landlord cymdeithasol cofrestredig/cymdeithas tai'n rhan, cyhoeddir cyfeiriad a rhif ffôn y mudiad perthnasol. Mae gan gymdeithasau tai gyfrifoldeb i sicrhau nad yw eu tenantiaid yn ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol.

5.12 Mae cyfeiriadau a rhifau ffôn y cymdeithasau tai lleol ar gael yn swyddfa'r Gwasanaeth Tai ar Ffordd Rhuthun, Wrecsam, a chan swyddfeydd ystadau lleol.

5.13 **Cyfeirio at Iechyd Amgylcheddol**

5.14 Mewn achosion o niwsans sŵn, cyfeirir y rhain at swyddogion iechyd amgylcheddol y Cyngor. I ddechrau, byddant yn cysylltu â'r achwynydd ac yn anfon taflenni cofnodi er mwyn monitro natur y sŵn a pha mor aml mae'n digwydd. Rhaid dychwelyd y taflenni hyn o fewn mis i'r Gwasanaethau Amgylcheddol.

5.15 Yn dilyn dadansoddi'r taflenni, gellir gosod mesurydd sŵn yng nghartref yr achwynydd neu gall swyddog iechyd amgylcheddol wneud y gwaith monitro'n bersonol.

5.16 Bydd hyn yn pennu lefel y sŵn ac a oes unrhyw niwsans. Os oes niwsans statudol neu os yw'n debygol o fod yn niwsans statudol, gall y Cyngor gyhoeddi rhybudd atal dan Adran 80 o Ddeddf Diogelwch Amgylcheddol 1990.

5.17 Rhoddir amser rhesymol i'r tramgwyddwr gydymffurfio (gall amrywio o ar unwaith ar gyfer cerddoriaeth uchel i 21 diwrnod ar gyfer ci sy'n cyfarth). Os torrir y rhybudd, mae'r tramgwyddwr yn euog o drosedd.

5.18 Yr opsiynau sydd ar gael yw:-

- erlyn am beidio â chydymffurfio â'r rhybudd (Deddf Diogelwch Amgylcheddol 1990)
- atal y niwsans
- cipio'r offer (Deddf Sŵn 1996)

5.19 **Gorchmynion Cau**

5.20 Mae Rhan 1 Adran 2 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn rhoi pwerau newydd i'r heddlu a'r llys ynadon i gau eiddo hyd at 3 mis. Mae hyn yn gwahardd y preswylwyr rhag mynd i'r eiddo. Gellir defnyddio'r gorchmynion hyn yn achos ymddygiad gwrthgymdeithasol ailadroddol neu lle mae cyffuriau Dosbarth A yn cael eu defnyddio neu eu gwerthu o eiddo'r Cyngor.

5.21 Gall yr heddlu gysylltu ag awdurdodau lleol wrth ymgeisio am orchmynion cau neu fod yn annibynnol o'r Cyngor.

5.22 Bydd rhent yn dal i fod yn daladwy ac os torrir telerau'r cytundeb tenantiaeth, gellir dweud bod y tenant yn fwriadol ddigartref. Ni fydd yn ddyletswydd ar yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd i ailgartrefu'r unigolion dan sylw.

6. PARTNERIAETHAU AMLASIANTAETH

6.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cydnabod y daw ymddygiad gwrthgymdeithasol o sawl ffynhonnell. Fel landlord, nid ydym yn gweithio ar ein pen ein hunain. Defnyddiwn brofiad nifer o asiantaethau a gwasanaethau eraill y Cyngor. Mae gennym berthynas waith gref gydag ystod o bartneriaid.

6.2 Mae'r prif bartneriaethau amlasiantaeth y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn rhan ohonynt fel a ganlyn:-

a) **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol**

Mae Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 yn gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau allweddol eraill, megis yr Awdurdod Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf, i ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n lleihau troseddau ac anhrefn yn y fwrdeistref.

Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yw'r prif grŵp sy'n arwain yr holl weithgorau ar y cyd eraill.

Mae'r Bartneriaeth yn cyfarfod bob deufis i hybu cyfathrebiadau, cydweithio i fodloni amcanion y bartneriaeth a thrafod datblygiadau diogelwch cymunedol gydag asiantaethau sy'n bartneriaid.

Yr asiantaethau sy'n rhan o hon yw:-

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Bwrdd Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-Ddwyrain Cymru
- Gwasanaeth Prawf
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

b) **Cyd-Weithgor Gweithredu**

Mae'r Cyd-Weithgor Gweithredu'n bartneriaeth amlasiantaeth a ffurfiwyd i adnabod ac ymdrin â materion troseddu ac anrhefn ar lefel leol. Ceir yr aelodaeth o swyddogion strategol ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Mae'r grŵp yn cyfarfod bob mis i rannu gwybodaeth a chytuno ar weithrediadau. Llunnir a chymeradwyir cynlluniau gweithredu ar gyfer pob maes problemus. Nodir y meysydd hyn gan ddadansoddwr troseddau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Cynhwysir cynrychiolwyr o'r holl bartneriaid ac asiantaethau allweddol yn y grŵp hwn:-

- Adrannau'r Cyngor – Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Safonau Masnach a'r Gwasanaeth Ieuenctid
- Y cymdeithasau tai sy'n gweithredu ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam pan fydd yn berthnasol i reolaeth eu heiddo neu ystadau
- Gwasanaeth Prawf
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
- Awdurdod Heddlu
- Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
- Cyrff y sector gwirfoddol – Cefnogi Dioddefwyr a Gwarchod y Gymdogaeth
- Cymunedau yn Gyntaf

c) **Grŵp Cynllunio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Mae'r Grŵp Cynllunio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn bartneriaeth amlasiantaeth a ffurfiwyd i adnabod y rhai sy'n parhau i ymddwyn yn wrthgymdeithasol a chynnig gwasanaethau i'r tramgwyddwyr. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob mis i lunio a gweithredu ymyriadau a fydd yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag parhau. Cymerir ymagwedd raddol ynghyd ag ymatebion sy'n dibynnu ar ddifrifoldeb yr ymddygiad gwrthgymdeithasol ac unrhyw hanes o droseddu.

Cyfeirir tramgwyddwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol at y grŵp hwn er mwyn ystyried sut i weithredu nesaf.

Bydd yn ymdrin ag ymddygiad yr unigolyn dan sylw ac unrhyw broblemau cysylltiedig.

Mae'r grŵp yn cynnwys:-

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

Gwahoddir rheolwyr ystadau i'r grŵp os sylwir bod tramgwyddwr yn byw mewn llety'r Cyngor yn yr ardaloedd y maent yn eu rheoli.

Bydd yr holl bartneriaid yn gyfrifol am weinyddu system o gardiau melyn; ymagwedd raddol at ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bwriedir i'r rhybuddion cynnar atal yr ymddygiad gan leihau'r gofyn am ymyriadau mwy difrifol. Mae pedwar cam a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:-

1. Cyhoeddi cardiau melyn
2. Anfon cardiau melyn a llythyrau rhybudd at y tramgwyddwyr
3. Ymweliadau cartref gan gynrychiolwyr o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol
4. Cyfeirio at y Grŵp Cynllunio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Cam 1:- Gall unrhyw aelod o'r Grŵp Cynllunio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol roi cardiau melyn os ydynt yn gweld ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gan fod yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn rhan o'r grŵp hwn, gall aelodau o'r staff tai roi'r cardiau hyn hefyd. Rhoddir rhybudd llafar ar yr un pryd a ddilynir gan lythyr at y sawl sydd wedi ymddwyn yn wrthgymdeithasol a'i rieni/ofalwyr gan Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yr Heddlu. Ar y pwynt hwn, bydd y Rheolwr Gorfodi Tenantiaethau hefyd yn cysylltu â'r sawl sydd wedi ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu ei rieni, os ydynt yn byw yn un o dai'r Cyngor. Anfonir yr holl gardiau a roddir gan y staff tai at y Rheolwr Gorfodi Tenantiaeth yn y lle cyntaf i'w cydosod a'u hanfon at y Tîm Diogelwch Cymunedol. Bydd manylion y tramgwyddwyr a natur yr ymddygiad yn cael eu rhoi ar gronfa ddata a ddelir gan Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Cam 2:- Bryd hynny, gall Heddlu Gogledd Cymru ac un o'r partneriaid canlynol ymweld â chartref y tramgwyddwyr – y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, gweithiwr cymdeithasol neu aelod o staff y Gwasanaethau Tai sy'n cynrychioli'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Bydd y system yn cael ei hesbonio i'r tramgwyddwyr a byddant yn cael eu rhybuddio o ganlyniadau ailadrodd yr ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cam 4:- Dyma gam olaf y broses ac mae'n cynnwys cyfeirio'r tramgwyddwyr at y Grŵp Cynllunio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Bydd y grŵp yn trafod achosion unigol a'r opsiynau neu'r ymyriadau sydd ar gael i adfer y sefyllfa.

Mae'r opsiynau sydd ar gael yn cynnwys:-

- Cyfeirio at y gwasanaeth amddiffyn plant
- Dosbarthiadau magu plant
- Patrol triwantiaeth
- Gorchmynion troseddau ieuenctid
- Contractau ymddygiad derbyniol
- Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Achos meddiannu
- Monitro pellach

Gall y Gwasanaeth Landlordiaid ddilyn ymyriadau ochr yn ochr â hyn, megis cyhoeddi contractau ymddygiad derbyniol neu orchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a allai arwain at garchar yn y pen draw, neu benderfyniad i gychwyn ar achos meddiannu trwy gyhoeddi rhybudd o geisio meddiant am dorri amodau tenantiaeth. Gallai hyn arwain atoch yn cael eich troi allan o lety'r Cyngor yn y pen draw.

ch) **Wardeiniaid Amwynderau**

Cyflogwyd wardeiniaid amwynderau gan Is-Adran Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor ers 2002.

Prif amcan y wardeiniaid hyn yw atal cŵn rhag baeddu mannau cyhoeddus a phobl rhag taflu sbwriel trwy ddefnyddio cyfuniad o orfodaeth ac addysg. Maent yn darparu gwybodaeth megis arwyddion, taflenni a chyngor yn y man a'r lle.

Bydd wardeiniaid amwynderau'n mynd i gyfarfodydd cymunedol lle mae pryderon am faw cŵn neu sbwriel. Maent ar gael i roi cyflwyniadau mewn ysgolion a gwneud gweithgareddau cyhoeddusrwydd gyda phlant lleol.

Paratoir adroddiadau i'r Gwasanaethau Amgylcheddol ac anfonir y rhain at yr uwch warden sy'n dosbarthu achosion ar sail ardal. Mae gan y wardeiniaid amwynderau bwerau gorfodi sy'n eu galluogi i erlyn unigolion am daflu sbwriel a chaniatáu i'w cŵn faeddu.

Gellir rhoi rhybuddion cosbau sefydlog i droseddwyr. Gosodir y symiau gan Lywodraeth Cymru ac maent yn £75 yr un ar hyn o bryd.

Rhaid i dramgwyddwyr dalu'r rhain o fewn 14 diwrnod neu bydd camau pellach yn cael eu cymryd. Gall caniatáu i'ch ci faeddu olygu uchafswm dirwy o £1000 a thaflu sbwriel uchafswm ddirwy o £2500.

d) **Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau Wrecsam**

Mae'r Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau (SMAT) yn rhan o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n ceisio lleihau troseddau ac anhrefn yn Wrecsam. Mae SMAT yn bartneriaeth amlasiantaeth sy'n cynnwys yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru a'r sectorau gwirfoddol a chymunedol. Ei nod yw mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a lleihau'r niwed mae'n ei achosi ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam trwy weithio tuag at darged cytundeb y sector cyhoeddus (PSA4) i "leihau'r niwed a achosir gan gyffuriau anghyfreithlon gan gynnwys cynyddu nifer y camddefnyddwyr sy'n cael triniaeth yn sylweddol".

Arweinir gwaith SMAT Wrecsam gan Strategaeth Cyffuriau ac Alcohol Cymru: "Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Y Dull Partneriaeth". Mae gan y strategaeth 4 amcan allweddol y mae gofyn i bob partneriaeth SMAT ymdrin â nhw yn eu cynlluniau gweithredu: plant, pobl ifanc ac oedolion, teuluoedd a chymunedau, triniaeth ac argaeledd.

Gofynnir i bob SMAT ddatblygu cynllun gweithredu i amlinellu ei gamau gweithredu yn erbyn pob un o'r amcanion uchod, sy'n cael ei fonitro bob tri mis gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae cynllun gweithredu Wrecsam ar gyfer 2005/08 ar gael gan Uned Diogelwch Cymunedol Wrecsam ar 01978 317020 neu anfonwch e-bost at y Swyddog Datblygu SMAT – vicky.owen@wrexham.gov.uk.

7. CEFNOGAETH I ACHWYNWYR A THYSTION

7.1 Trwy gydol y broses, bydd achwynwyr a thystion yn cael eu cefnogi'n llawn gan y Gwasanaethau Landlordiaid. Ymdrinnir â chwynion yn brydlon. Bydd achwynwyr yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau a chymerir camau priodol i ddatrys yr achos yn foddhaol.

7.2 Os teimlir bod achwynwyr yn hawdd eu niweidio, yn fregus neu'n hen, byddwn yn cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i gael cefnogaeth. I'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg, bydd staff yn defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn er mwyn sicrhau triniaeth a gwasanaeth teg a chyfartal i bawb.

7.3 Pan gyfeirir achos at Heddlu Gogledd Cymru, byddant yn cysylltu ag achwynwyr neu dystion dros y ffôn neu'n ymweld â nhw. Gellir cyfeirio unrhyw ddioddefwyr at y gwasanaeth cefnogi dioddefwyr. Mewn achosion eithafol, os yw'r heddlu'n teimlo bod bygythiad penodol, gellir symud achwynwyr neu dystion neu gellir gosod larymau yn eu cartrefi.

7.4 Os oes rhesymau dilys pam na all tyst fynd i'r llys, o ganlyniad i salwch er enghraifft, bydd ffyrdd eraill o roi tystiolaeth. Gall y Tîm Gorfodi Tenantiaeth ddarllen datganiadau llofnodedig yn y llys ar ran tystion neu gall tystiolaeth gael ei chynnwys yn y dystiolaeth gyffredinol a roddir i'r llys. Gall y Tîm Gorfodi Tenantiaeth weithredu fel tystion proffesiynol hefyd. Mae hyn yn cynnwys casglu tystiolaeth a'i chyflwyno yn y llys.

7.5 Mewn achosion eithafol, gellir gael gwaharddebau gan y llys sy'n cynnwys cymalau penodol sy'n atal tramgwyddwyr rhag mynd yn agos at dystion a'u cartrefi.

8. RHEOLI TRAMGWYDDWYR

8.1 Bydd ein hymateb i bob tramgwyddwr yn dibynnu ar natur yr ymddygiad gwrthgymdeithasol ac amgylchiadau'r unigolyn. Gall y broses o weithredu yn erbyn tenantiaid sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol fod yn anodd. Felly, mae'n hanfodol bod yn sensitif a rhoi ystyriaeth i denantiaid hawdd eu niweidio. Y prif amcan yw rhoi'r gorau i'r ymddygiad a'i atal rhag digwydd eto.

8.2 Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r tramgwyddwyr i roi cyfle iddynt adfer y mater a newid eu hymddygiad.

8.3 Byddwn yn rhoi gwybodaeth i denantiaid newydd am eu rhwymedigaethau a'n polisi ar fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyn gynted ag y bo modd. Bydd taflen wybodaeth sy'n amlinellu eu rhwymedigaethau, sut fyddwn yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a sut all tenantiaid roi gwybod i ni am unrhyw achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei rhoi i bob tenant wrth iddynt gofrestru am dŷ newydd.

8.4 Mewn achosion eithafol, gall y Cyngor ddadfeddiannu tenantiaid o'u cartrefi.

8.5 Bydd ein hymateb cyntaf yn rhybudd ffurfiol neu'n gyfweliad a fydd yn cynnwys:-

- Disgrifiad o'r toriad yn y cytundeb tenantiaeth a'r rhwymedigaethau i'r tramgwyddwr
- Cyfrif o'r ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cyfle i ymateb i'r achwynydd
- Rhybudd ffurfiol na fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei oddef ac y byddwn yn ystyried gweithredu contract ymddygiad derbyniol neu achos cyfreithiol os bydd yn parhau

8.6 Os nad yw tenantiaid yn siarad Cymraeg neu Saesneg, bydd staff yn defnyddio gwasanaethau megis y gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn. Mae hyn yn sicrhau bod tenantiaid yn cael triniaeth deg a mynediad cyfartal i wybodaeth.

8.7 Os yw'r tramgwyddwyr yn ifanc, byddwn yn gwahodd y rhieni neu warcheidwaid i'r cyfweliad. Byddwn yn cysylltu â darparwyr gwasanaethau eraill sy'n chwarae rhan ym mywyd y tramgwyddwyr.

8.8 Cyfeirir at y Gweithgor Cydweithredu hefyd er mwyn adnabod yr ardal lle mae'r ymddygiad yn digwydd fel ardal iddo gadw golwg arni.

8.9 Mae'r Gwasanaethau Landlordiaid yn sylweddoli y gellir ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol llai difrifol â'r gefnogaeth briodol. Mae hyn yn ddefnyddiol wrth helpu rhai tenantiaid i gadw eu tenantiaeth ac osgoi cael eu dadfeddiannu. Yn yr achosion hyn, gellir cyfeirio at y Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaeth. Mae gweithwyr cefnogi tenantiaeth yn helpu tenantiaid ag anghenion isel neu gymedrol i wynebu unrhyw anawsterau sy'n peryglu eu tenantiaeth. Mae'r gwasanaeth yn annog tenantiaid sydd ag anghenion penodol i gysylltu ag asiantaethau proffesiynol perthnasol hefyd.

8.10 Bydd y Gwasanaethau Landlordiaid yn archwilio unrhyw gais am ailgartrefu neu drosglwyddo gan unrhyw rai sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn ofalus iawn.

8.11 Os bydd yr unigolion hyn yn gwneud cais am ail gartref fel pobl ddigartref, gwneir yr holl ymholiadau gofynnol gyda'r swyddfa ystad berthnasol a'r Tîm Gorfodi Tenantiaeth. Gellir penderfynu i'w dosbarthu fel pobl sy'n fwriadol ddigartref.

8.12 Mae Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gweithredu polisi gwaharddiadau. Dan ei delerau, gellir gwahardd unrhyw ymgeisydd sydd â hanes o ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r gofrestr tai am gyfnod amhenodol. Bydd y gwaharddiad hwn yn gymwys os yw ymgeisydd neu gyd-ymgeisydd neu rywun sy'n byw gyda nhw'n euog o ymddygiad annerbyniol difrifol ar adeg y cais y mae'r Cyngor, fel y landlord, wedi cael Gorchymyn Meddiant Llwyr ar ei gyfer neu y gallai fod wedi cael un ar ei gyfer. Mae gan ymgeiswyr gyfrifoldeb i brofi bod eu hymddygiad wedi gwella.

8.13 Gellir gwahardd unigolion dim ond yn dilyn cyfarfod y Panel Gwaharddiadau sy'n cynnwys uwch reolwyr tai a chyfreithwyr y Cyngor.

8.14 Mae gan yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd bolisïau ar osod eiddo a gwahardd unigolion. Gellir cyfeirio at y rhain er mwyn cael mwy o fanylion.

8.15 Digwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol am lawer o resymau. Byddwn yn ystyried ymagweddau gwahanol i reoli a lleihau'r risg:-

- Cynnwys gwasanaethau megis y Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer mesuriau dargyfeirio.
- Cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau cefnogi eraill os yw'r tenant yn agored i niwed a bod yr ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad i salwch yn hytrach na'n weithred fwriadol.
- Defnyddio contractau ymddygiad derbyniol i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol heb fynd i'r llys ar unwaith, trwy'r Grŵp Cynllunio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.
- Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a gorchmynion cefnogi unigol ar gyfer achosion mwy difrifol neu sy'n gwaethygu.
- Diraddio tenantiaethau ar gyfer tenantiaid sicr sy'n parhau i ymddwyn yn wrthgymdeithasol.
- Defnyddio gwaharddebau.
- Estyn cyfnod tenantiaeth ragarweiniol.
- Gwrthod caniatâd i gyfnewid tai.

Polisïau Gosod Lleol

8.16 Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol yn nhai'r Cyngor arwain at amrywiaeth o broblemau rheoli. Os nad oes llawer o alw am dai ar strydau penodol neu

mewn blociau penodol o fflatiau, gall tai fod yn wag am gyfnodau hir, gan gynyddu'r perygl o fandaliaeth a llosgi bwriadol.

8.17 Mae'r Ddeddf Tai 1996 (a ddiwygwyd gan y Ddeddf Ddigartrefedd 2002) yn gofyn i awdurdodau lleol lunio polisi ysgrifenedig sy'n pennu'r blaenoriaethau a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth osod tai. Mae adran 167(2E)/9a.16(3)] yn caniatáu i gynghorau rentu tai i bobl o ddisgrifiad arbennig pan fo gwir angen dilyn yr ymagwedd hon.

8.18 Mae polisïau gosod lleol yn rhoi gofynion penodol ar y rheiny sy'n gwneud ceisiadau am dai mewn ardaloedd penodol. Gall y gofynion hyn gynnwys bod o oedran arbennig neu gallu profi eu bod wedi cynnal unrhyw denantiaethau blaenorol neu denantiaethau â landlordiaid eraill mewn modd boddhaol.

8.19 Ar ôl ystyried yr holl ffeithiau, megis fandaliaeth, ymddygiad gwrthgymdeithadol a nifer y tai gwag sydd yn yr ardal, bydd y Gwasanaethau Landlordiaid yn ystyried defnyddio polisïau gosod lleol i greu tenantiaethau mwy cynaliadwy a lleihau'r achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dylai hyn greu mwy o alw am dai mewn ardal wrth i ymgeiswyr ei gweld yn lle mwy diogel a dymunol i fyw ynddi.

8.20 Gellir cael manylion llawn y meini prawf cymhwyster ar gyfer symud i dai sydd wedi'u cynnwys yn eich polisi gosod lleol ym Mholisi Gosod Lleol yr Adran ar gyfer Eiddo sydd Anodd ei Reoli.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn Llety Ymddeol

8.21 Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol ddigwydd mewn achosion sy'n mynnu ymagwedd fwy teimladwy hefyd. Mae'r Gwasanaethau Landlordiaid wedi datblygu gweithdrefn benodol ar gyfer ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol pan fo'n digwydd mewn llety ymddeol sy'n perthyn i'r Cyngor, gan ei fod yn cydnabod bod pobl yn mynd i fyw mewn llety cysgodol yn hwyrach mewn bywyd, pan fo ganddynt anghenion cefnogaeth uwch.
Bydd staff y Gwasanaethau Landlordiaid yn cydweithio ag adrannau ac asiantaethau eraill megis y Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth geisio datrys achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn llety ymddeol.

8.22 Gall anghenion cefnogaeth unigolion newid yn sydyn iawn o ganlyniad i salwch, dirywiad oherwydd henaint neu broblemau megis camddefnyddio alcohol ac afiechyd meddwl. Gallai hyn effeithio ar bobl sy'n byw'n agos iawn atynt.

8.23 Er y gallai dirywiad yng nghyflwr unigolyn ymddangos fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, gallai fod o ganlyniad i salwch yn hytrach nag yn fwriadol.

8.24 Yn yr achosion hyn, rydym yn cydnabod nad yw ymddygiad tebyg yn torri'r amodau'r denantiaeth yn fwriadol a bod angen ystyried camau eraill yn y lle cyntaf, yn hytrach na chamau cyfreithiol.

8.25 Cyn cynnig llety cysgodol, bydd asesiad yn cael ei wneud o addasrwydd yr unigolyn ar gyfer llety cysgodol. Bydd yr asesiad yn cynnwys:-

- Gwneud darpar denantiaid yn ymwybodol o'r gwasanaeth cysgodol a'r hyn y mae'n ei ddarparu'n ysgrifenedig ac ar lafar.
- Y swyddfa dai'n mynd gyda darpar denantiaid i weld tai cysgodol, pan fo tenantiaid newydd wedi cofrestru am lety.

8.26 Bydd wardeiniaid yr holl gynlluniau cysgodol yn cwblhau Cynllun Cefnogaeth gyda phob tenant newydd. Mae'r cynllun hwn yn enwi'r holl bobl a'r asiantaethau sy'n gysylltiedig â chefnogi unigolyn. Bydd wardeinaid yr holl gynlluniau cysgodol yn adolygu cynlluniau cefnogaeth yr holl denantiaid bob chwe mis, neu pan fydd amgylchiadau'n newid a gwybodaeth yn cael ei diweddaru.

8.27 Os bydd cyflwr tenant yn dirywio neu os bydd amodau'r denantiaeth yn cael eu torri, bydd y warden yn cwblhau archwiliad yn gyntaf ac yn cymryd unrhyw gamau gweithredu priodol i ddatrys y broblem. Bydd unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi yng Nghynllun Cefnogaeth y tenant.

8.28 Bydd y warden yn cysylltu â'r swyddfa dai briodol ac yn gwneud cais i lythyr dilynol gael ei anfon at y tenant – anfonir copi at weithiwr cymdeithasol neu weithiwr prosiect y tenant hefyd, os yw'n briodol. Os bydd pryder dwys yn cael ei godi, hysbysir y Tîm Asesu Cyswllt a Rheolwr y Gwasanaethau i Bobl Hŷn. Bydd yr holl bartïon yn cyfathrebu â'i gilydd nes i'r mater gael ei ddatrys. Bydd unrhyw gamau gweithredu'n cael eu nodi yng Nghynllun Cefnogaeth y tenant.

8.29 Os bydd unrhyw ddigwyddiad yn cael ei ailadrodd, bydd y warden yn rhoi gwybod i Dîm Asesu Cyswllt y Gwasanaethau Cymdeithasol neu weithiwr cymdeithasol y tenant i ofyn am gyfarfod. Gwahoddir pawb sy'n gysylltiedig â chefnogi'r unigolyn i'r cyfarfod hwnnw, gan gynnwys y warden perthnasol a Rheolwr yr Ystad. Cynhelir y cyfarfod o fewn 14 diwrnod neu 24 awr mewn achosion sydd wedi achosi perygl union, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae gan y tenant hawl i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn a dod â chynrychiolydd yn ôl yr angen.

8.30 Bydd y cyfarfod yn trafod y digwyddiad a p'un a oes angen unrhyw gefnogaeth ychwanegol i helpu'r unigolyn i gynnal ei denantiaeth. Gall canlyniadau'r cyfarfod gynnwys mwy o gefnogaeth neu gyfeirio'r tenant at wasanaethau eraill. Rhaid trafod unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd gyda'r tenant a chadarnhau hynny'n ysgrifenedig. Caiff cynllun gweithredu ei lunio hefyd i roi'r gefnogaeth ar waith a bydd copi ohono'n cael ei gadw yn ffeil y tenant, ynghyd â'i Gynllun Cefnogaeth.

8.31 Bydd unrhyw gynllun gweithredu sy'n cael ei gytuno'n dilyn y cyfarfod yn cael ei adolygu o fewn 4 wythnos gan y warden perthnasol, er mwyn sicrhau bod y camau a roddwyd ar waith yn addas i'r tenant ac yn gweithio.

8.32 Os bydd unrhyw bryderon pellach, bydd y warden yn gofyn am gyfarfod pellach gyda'r rheiny sy'n darparu cefnogaeth i'r tenant i drafod canlyniadau

gweithredoedd y tenant. Bydd Rheolwr y Gwasanaethau i Bobl Hŷn neu'r Swyddog Tai Cysgodol yn bresennol yn y cyfarfod hwn hefyd.

8.33 Bydd angen trafod a yw'r tenant yn mynd i barhau i fyw yn yr uned gysgodol a p'un a oes angen llety arall sy'n fwy addas i anghenion y tenantiaid, yn y cyfarfod hefyd.

8.34 Mewn achosion lle nad yw pawb yn cytuno neu os yw tenant yn gwrthod siarad â'r gwasanaethau cefnogi, bydd angen ystyried camau cyfreithiol, yn enwedig yn yr achosion hynny pan fo ymddygiad unigolyn yn cael effaith ddifrifol neu niweidiol ar drigolion eraill.

8.35 Bydd Rheolwr yr Ystad berthnasol a'r Rheolwr Tai dros Wasanaethau i Bobl Hŷn yn paratoi cydadolygiad i'r Rheolwr Gweithrediadau Tai cyn dechrau ar unrhyw gamau cyfreithiol. Bydd yr adroddiad yn manylu ar y camau a gymerwyd i geisio datrys y sefyllfa bresennol. Ym mhob achos, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu hysbysu er mwyn iddynt gymryd unrhyw gamau priodol.

9. CAMDRINIAETH YN Y CARTREF

9.1 Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddyletswydd i gymryd yr holl gamau rhesymol i ymdrin â chamdriniaeth yn y cartref o ran y rhai sy'n cael eu cam-drin, unrhyw blant sy'n cael eu heffeithio ac ymddygiad y tramgwyddwyr.

9.2 Mewn partneriaeth ag asiantaethau allweddol eraill, mae'r Cyngor yn ymroddedig i'r egwyddor nad oes esgus am gam-drin yn y cartref.

9.3 Camdriniaeth yn y cartref yw camdriniaeth emosiynol, corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd ac arfer rheolaeth gan aelod o'r teulu, partner neu gyn bartner beth bynnag fo'u rhyw, oedran neu dueddfryd rhywiol. Mae'r rhan fwyaf o gamdriniaeth yn cael ei chyflawni gan ddynion yn erbyn merched. Bydd o leiaf un o 4 merch yn profi camdriniaeth yn ystod eu bywydau, beth bynnag fo'u tarddiad ethnig neu gefndir cymdeithasol economaidd.

9.4 Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn goddef camdriniaeth yn y cartref gan neu yn erbyn tenantiaid a bydd yn gweithio gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill er mwyn delio â hyn.

9.5 Mae diogelwch y rhai mewn perygl o niwed yn brif ystyriaeth a byddwn yn cysylltu ag adrannau perthnasol ac asiantaethau cynghori a chefnogi.

9.6 Gall Is-Adran Digartrefedd yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd gynorthwyo dioddefwyr camdriniaeth yn y cartref. Mae Deddf Digartrefedd 2002 yn rhoi hawl i lety dros dro i ddioddefwyr. Bydd ganddynt yr hawl hon p'un a ydynt yn rhentu neu'n berchen ar eu cartref.

9.7 Nid oes raid i ferch ddarparu tystiolaeth o gamdriniaeth yn y cartref gan ei bod yn ddyletswydd ar yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd i ddarparu llety tra'n cyflawni unrhyw ymchwiliadau gofynnol. Bydd yr holl ymchwiliadau'n ystyried sensitifrwydd y mater, y ffaith bod rhai dioddefwyr wedi cael ofn a'r angen am gyfrinachedd.

9.8 Gall yr Is-Adran Digartrefedd gysylltu â Chymorth i Ferched neu lochesi tu allan i'r Fwrdeistref Sirol os bydd gofyn i rywun adael ardal Wrecsam.

9.9 Gellir cyfeirio rhywun sy'n ddigartref oherwydd camdriniaeth yn y cartref at Gymorth i Ferched os dymunant ddod i Wrecsam i fyw.

9.10 Mae'r rhan fwyaf o lochesi'n aelodau o Gymorth i Ferched Cymru neu'n gysylltiedig â nhw. Maent yn gorff cenedlaethol sy'n cefnogi, arwain a chynnig adnoddau i rwydwaith o brosiectau lloches.

9.11 Mae llochesi'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gan gynnwys:-

- Darparu lloches dros dro i ferched a'u plant.
- Cefnogaeth ac anogaeth i helpu dioddefwyr i benderfynu ar eu dyfodol.
- Cefnogaeth yn y gymuned.
- Gwasanaethau sy'n delio ag unrhyw anghenion arbennig y plant dan sylw.
- Cyngor, gwybodaeth, a chefnogaeth ynghyd ag ôl-ofal i ferched sy'n gadael lloches.

10. GWASANAETH CEFNOGI TENANTIAETH

10.1 Cydnabyddwn fod modd ymdrin â rhai achlysuron o ymddygiad gwrthgymdeithasol â chefnogaeth briodol. Mae'r gefnogaeth hon yn ddefnyddiol wrth helpu rhai tenantiaid i gadw eu tenantiaeth ac osgoi achos llys a dadfeddiant.

10.2 Os nad yw'r ymddygiad yn rhy ddifrifol, er enghraifft, gerddi anniben neu blant afreolus, gellir cyfeirio at Wasanaeth Cefnogi Tenantiaeth y Cyngor.

10.3 Mae'r gwasanaeth ar gael i holl denantiaid y Cyngor. Dan y cynllun, bydd swyddog yn ymweld yn rheolaidd, yn dibynnu ar lefel y gefnogaeth sydd ei hangen a chynnig cyngor a chymorth ar sut i ddelio â phroblemau penodol sy'n peryglu tenantiaeth.

10.4 Â chaniatâd y tenant, gellir cyfeirio at asiantaethau arbenigol eraill os nodir unrhyw faterion penodol a allai fod yn cyfrannu at ymddygiad gwrthgymdeithasol e.e. cam-drin alcohol.

11. YMGYNGHORIAD

11.1 Ymgynghorwyd â'r asiantaethau a'r aelodau o staff canlynol wrth lunio'r datganiad polisi a'r gweithdrefnau hyn. Byddwn yn ymgynghori â nhw ynghylch unrhyw newidiadau a gynigir yn y dyfodol hefyd:-

- Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Cydlynydd Diogelwch Cymunedol (Ymddygiad Gwrthgymdeithasol)
- Gwasanaethau Amgylcheddol (CBSW)
- Rheolwyr ystad (Gwasanaeth Tai CBSW)
- Rheolwr Gwaith Tai (Gwasanaeth Tai CBSW)
- Rheolwr y Gwasanaethau Landlord (Gwasanaeth Tai CBSW)
- Heddlu Gogledd Cymru
- Prif Swyddog Gwasanaethau Tai (Gwasanaeth Tai CBSW)
- Uwch Swyddog Diogelwch Cymunedol (Ymddygiad Gwrthgymdeithasol)
- Shelter Cymru
- Rheolwr Strategaeth a Gwasanaeth Cefnogi (Gwasanaeth Tai CBSW)
- Tîm Gorfodi Tenantiaeth (Gwasanaeth Tai CBSW)
- Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaeth (Gwasanaeth Tai CBSW)
- Partneriaeth Aelodau a Thenantiaid
- Cynulliad y Tenantiaid (Grŵp Ffocws Rheoli Ystadau)
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
- Cydlynydd Camdriniaeth yn y Cartref Wrecsam

12. RHESTR GEIRFA

12.1 **Contract Ymddygiad Derbyniol**

Mae hwn yn gytundeb gwirfoddol rhwng y Gwasanaeth Tai a thenant neu aelod teulu sydd wedi bod yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Defnyddir hwn ar gyfer pobl ifanc rhwng 10 a 18 oed fel arfer ond mae'n bosibl ei ddefnyddio ar gyfer oedolion os ydynt yn dal i fyw yn eiddo'r Cyngor gyda rhieni neu warcheidwaid. Mae'r contract yn manylu ar restr o weithrediadau y mae unigolion yn cytuno i beidio â'u gwneud. Mae'r contract hwn yn arf ddefnyddiol a all helpu tramgwyddwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol i gydnabod ei effaith a sut i'w gywiro. Mae bygwth achos cyfreithiol yn y dyfodol yn annog unigolion i gadw at y cytundeb hefyd.

12.2 **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

At ddibenion cael gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gosodir allan y diffiniad yn adran 1(1) o Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998 sef ymddwyn mewn ffordd sydd wedi achosi neu'n debygol o achosi aflonyddwch, gofid neu ofn i un neu fwy o unigolion nad ydynt yn byw yn yr un eiddo â'r achwynydd.

12.3 **Gwaharddebau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Daeth yr ateb cyfreithiol hwn i rym ym mis Medi 2004. Gall awdurdod lleol ymgeisio am waharddeb ymddygiad gwrthgymdeithasol yn erbyn unrhyw un y gall ei ymddygiad achosi niwsans neu aflonyddu unigolion penodol. Bydd yr ymddygiad yn perthyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i allu'r Cyngor i reoli ei gartrefi. Mae'n haws cael gwaharddeb erbyn hyn. Estynnir ei bwerau i gynnwys diogelu gweithwyr y Cyngor a dioddefwyr nad ydynt yn denantiaid y Cyngor hefyd. Gallai tramgwyddwyr fod yn destun gorchmynion gwahardd hefyd a fydd yn eu hatal rhag mynd i fannau penodol. Mae gwaharddebau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gael i atal defnyddio neu fygwth defnyddio eiddo at ddibenion anghyfreithlon, megis gwerthu cyffuriau, puteindra neu drin nwyddau a ddygwyd.

12.4 **Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Mae gorchmynion gwrthgymdeithasol yn orchmynion sifil a wnaed mewn llys a lunnir i ddiogelu'r cyhoedd rhag ymddygiad sy'n debygol o achosi aflonyddwch, gofid neu ofn. Amlinellir amodau sy'n gwahardd y tramgwyddwyr rhag ymddwyn yn wrthgymdeithasol a mynd i fannau penodol. Gallant hefyd gynnwys cyfyngu unigolion rhag cyfarfod â'i gilydd a chyrffyws. Mae'r ffaith bod y gorchmynion hyn yn orchmynion sifil yn golygu y gellir gwrando ar dystiolaeth tystion proffesiynol a thystiolaeth ail law mewn ceisiadau. Gall hyn ddiogelu'r rhai sy'n dioddef yr ymddygiad a'r rhai sy'n adrodd amdano. Mae torri'r gorchmynion hyn yn drosedd. Mae'r gorchmynion yn effeithiol am 2 flynedd o leiaf.

12.5 **Diraddio Tenantiaeth**

Cyflwynwyd hyn gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 a daeth i rym ar 30 Ebrill 2005.

Gellir diraddio tenantiaeth tenantiaid sicr unrhyw adeg yn ystod eu tenantiaeth os ydynt yn creu niwsans neu'n defnyddio'r eiddo'n anghyfreithlon.

Mae llys y sir yn rhoi'r gorchmynion hyn os oes sail iddynt ac os yw'n rhesymol i wneud hyn. Maent yn effeithiol am gyfnod penodol o 12 mis. Bydd tenantiaid yn colli llawer o hawliau tenantiaeth sicr, gan gynnwys sicrwydd deiliadaeth, hawl i brynu, hawl i gyfnewid tŷ a'r hawl i symud i eiddo arall.

Bydd llys y sir yn rhoi gorchymyn diraddio os oes sail iddo ac os yw'n rhesymol i roi gorchymyn.

Ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod 12 mis y denantiaeth ddiraddedig, gall y Gwasanaeth Tai gyhoeddi rhybudd o achos meddiant.

Os yw'r landlord wedi dilyn y weithdrefn gywir ar gyfer cyhoeddi achos, rhaid i lys y sir roi gorchymyn meddiant a gallai hyn arwain at dramgwyddwyr yn gorfod gadael eu cartrefi.

12.6 **Estyn Tenantiaethau Cychwynnol**

Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Cyngor estyn tenantiaeth gychwynnol lle cafwyd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y cyfnod prawf 12 mis.

12.7 **Aflonyddwch**

Dyma erledigaeth neu aflonyddwch gan drigolion, aelodau o'u teulu, cartref neu ymwelwyr. Mae aflonyddwch ar sail hil, crefydd, lliw, anabledd, neu dueddfryd rhywiol fel arfer. Bydd ar sawl ffurf, gan gynnwys graffiti, iaith ymosodol, niwsans sŵn a difrodi eiddo.

12.8 **Gorchmynion Cefnogi Unigol**

O fis Mai 2004, pan fydd gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei orfodi ar unigolion rhwng 10 a 17 oed, mae'n rhaid i lysoedd ynadon gyhoeddi gorchmynion cyhoeddi unigol os teimlir y byddai hyn yn helpu i atal achlysuron pellach o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd swyddog cyfrifol yn goruchwylio'r ddarpariaeth hon. Gall y swyddog ddod o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd yn cynghori'r llys am gynnwys y gorchymyn. Gall y gorchymyn bennu bod yr unigolion dan sylw'n mynd i gael cwnsela er enghraifft os oes hanes o gam-drin sylweddau neu broblemau ymddwyn. Gall y gorchmynion hyn bara mwyafswm o chwe mis ond byddant yn dod i ben os cyhoeddir gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn debyg i orchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae torri gorchymyn cefnogi unigol yn drosedd a gall y llys orfodi dirwy.

12.9 **Anghytundebau rhwng Cymdogion**

Pan fydd dau gymydog yn anghytuno am unrhyw agwedd o ymddygiad y mae un ohonynt yn teimlo ei bod yn annerbyniol, bydd yn achosi niwsans neu aflonyddwch. Mae'r anghytundebau hyn yn deillio o ffyrdd o fyw gwahanol fel arfer.

12.10 **Niwsans**

Diffinnir niwsans fel tenant neu unrhyw un sy'n byw gyda'r tenant neu sy'n ymweld ag ef yn ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi niwsans neu sy'n aflonyddu rhywun os yw'r ymddygiad yn perthyn yn union neu'n anuniongyrchol i allu landlord i reoli ei eiddo ac ystadau.

12.11 **Achosion Meddiannu**

Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn cyflwyno rhai ystyriaethau penodol y mae'r rhaid i'r llys eu hystyried pan fydd y Cyngor yn ymgeisio am orchymyn meddiannu yn erbyn tenant sicr dan amod 2 o atodiad 2 o Ddeddf Tai 1985. Rhaid i'r Cyngor roi sail a dangos ei fod yn rhesymol i'r llys orchymyn meddiant. Dan delerau Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, rhaid i'r llys ystyried y canlynol hefyd:-

- Effaith y niwsans neu'r aflonyddwch ar unrhyw un heblaw am yr unigolyn y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef/hi.
- Parhad y niwsans neu'r aflonyddwch.
- Effaith ar bobl os yw'r ymddygiad yn cael ei ailadrodd.

Mae'r pŵer hwn mewn grym erbyn hyn.

12.12 **Aflonyddwch Hiliol**

Mae digwyddiad hiliol yn unrhyw ddigwyddiad y mae dioddefwr neu unrhyw un arall yn canfod ei fod yn hiliol. Dyma'r diffiniad a geir yn Adroddiad MacPherson i farwolaeth Stephen Lawrence. Yn debyg i aflonyddwch cyffredinol, gall aflonyddwch hiliol fod ar sawl ffurf, gan gynnwys ymddygiad ymosodol neu dreisiol, camdriniaeth lafar, a difrod i eiddo. Yn achos aflonyddwch hiliol, mae'n cael ei bryfocio gan hil, tarddiad ethnig neu liw croen y dioddefwr.

12.13 **Gohirio'r Hawl i Brynu**

Gall y Cyngor ymgeisio i lysoedd y sir i ohirio hawl i brynu unrhyw denant sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Daeth y pŵer hwn i rym ar 25 Tachwedd 2005.

12.14 **Gwrthod Caniatâd i Gyfnewid ar y Cyd**

Mewn achosion lle mae tenant neu rywun sy'n byw yn yr eiddo'n cael gwaharddeb, gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol neu orchymyn meddiannu oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, gall y Cyngor wrthod cais am gyfnewid ar y cyd.

13. RHIFAU FFÔN DEFNYDDIOL

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Prif switsfwrdd – 01978 292000
Gwasanaeth Tai – 01978 315300
Llinell Gymorth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (24 awr) – 01978 292029
Tîm Gorfodi Tenantiaeth - tenancyenforcement@wrexham.gov.uk

Swyddfeydd ystad - Broughton – 01978 720193
Caia – 01978 317040
Gwersyllt – 01978 722100
Plas Madoc – 01978 813000
Rhos – 01978 832900
Canol Wrecsam – 01978 292062

Iechyd Amgylcheddol – 01978 292040
Wardeiniaid Amwynderau – 01978 292040

Heddlu Gogledd Cymru

Gorsaf Wrecsam – 01978 290222
Minicom - 01978 294680
Argyfyngau – 999

Cymdeithasau Tai Lleol

Cymdeithas Tai Clwyd Alun – 01978 361814
Cymdeithas Tai Clwyd – 01745 815220
Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin – 0845 650 1630

Rhifau Ffôn Defnyddiol Eraill

Cefnogi Dioddefwyr Gogledd Cymru (cangen Wrecsam) – 01978 294605
Shelter Cymru (swyddfa Wrecsam) – 01978 317900
Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref – 0808 8010800
Cymorth i Ferched (24 awr) – 01978 310203
Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru (gorsaf Wrecsam) – 01978 263518
Gwarchod y Gymdogaeth – 01978 294519
Crimestoppers – 0800 555111
Cyngor ar Bopeth Wrecsam – 01978 364639